# COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

## Y CABINET

## DYDD MERCHER, 13 IONAWR 2021

**Cabinet Members:**

Cynghorwyr:: R.G.Jones, C.Clement-Williams, D.Jones, E.V.Latham, A.R.Lockyer, P.A.Rees, P.D.Richards, A.Wingrave a/ac L.Jones

**Swyddogion yn bresennol:**

N.Pearce, C.Griffiths, H.Jenkins, A.Evans, K.Jones, A.Jarrett, H.Jones a/ac J.Woodman-Ralph

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd y dylai'r Cynghorydd RG gael ei benodi'n Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Gwnaeth yr aelod canlynol ddatganiad o fudd ar ddechrau'r cyfarfod.

| | |
|---|---|
| Karen Jones,<br>Prif Weithredwr,<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-Nedd Port Talbot | Parthed: Adroddiad Indemniad y Swyddog Canlyniadau a'r Swyddog Canlyniadau Gweithredol gan mai hi yw'r Swyddog Canlyniadau mewn Etholiadau ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a fyddai'n derbyn yr Indemniad fel a nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, a gadawodd y cyfarfod ar ddechrau'r eitem. |

## 3. ADRODDIAD DIWEDDARU A MONITRO CYLLIDEB REFENIW 2020/21

**Penderfyniadau:**

1. Bod y trosglwyddiadau a'r symudiadau o ran arian wrth gefn fel y'u nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, yn cael eu cymeradwyo.

2. Bod y materion gweithredol ac ariannol fel y'u nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, yn cael eu nodi.

3. Bod y cyngor yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru ac yn unol â deddfwriaeth, rheoliadau a chyfarwyddiadau, i ddarparu gwasanaethau yn ystod y cyfnod heriol hwn.

4. Bod y grantiau ychwanegol a dderbyniwyd yn cael eu nodi.

5. Bod y cyngor yn parhau i geisio cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i dalu am effeithiau COVID-19 sef gwariant cynyddol, colli incwm, cost uwch Cymorth Treth y Cyngor a diffygion casglu Treth y Cyngor sy'n cael effaith andwyol ar gyllid a gweithgarwch y cyngor.

**Rheswm dros y penderfyniadau:**

Galluogi'r cyngor i fonitro a diweddaru amcanestyniadau'r Gyllideb ar gyfer 2020/21 a rhoi gwybod i'r Aelodau am y risgiau ariannol sy'n deillio o COVID-19.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

## 4. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB GYFALAF 2020/21

**Penderfyniadau:**

1. Bod y Rhaglen Gyfalaf yn cael ei chymeradwyo.

2. Bod y Rhaglen Gyfalaf ddiweddaredig yn cael ei chymeradwyo i'r cyngor:

- Bod cyllideb arfaethedig 2020/21, sef cyfanswm o £70.682m, yn cael ei chymeradwyo;

- Bod y sefyllfa mewn perthynas â gwariant ar 31 Rhagfyr 2020 yn cael ei nodi.

**Rheswm dros y penderfyniadau:**

Diweddaru Rhaglen Gyfalaf y cyngor ar gyfer 2020/21.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

5. **MONITRO RHEOLAETH Y TRYSORLYS 2020/21**

Tynnwyd sylw at y ffaith mai'r dyddiad aeddfedu ar gyfer buddsoddiadau Banc Lloyds oedd 25 Ionawr 2021. Gan fod hyn wedi'i hepgor o'r adroddiad a ddosbarthwyd.

**Penderfyniad:**

Dylid nodi'r adroddiad.

6. **CYLLIDEB DDRAFFT 2021/22 I YMGYNGHORI ARNI**

Gofynnodd y Cabinet i'w gwerthfawrogiad gael ei raeadru i'r holl staff am yr holl waith caled yr oeddent wedi'i wneud wrth baratoi'r gyllideb fel y'i nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd. Diolchwyd hefyd i H Jenkins, y Cyfarwyddwr Cyllid a'r Cynghorydd. C Clement-Williams. Aelod y Cabinet dros Gyllid.

**Penderfyniad:**

Bod y Prif Weithredwr yn cael ei awdurdodi i ymgynghori â'r cyhoedd ar y gyllideb ddrafft, arbedion, newidiadau i wasanaethau, incwm ychwanegol a chynigion treth y cyngor fel a nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Galluogi'r cyngor i ddechrau'r ymgynghoriad ar gyllideb ddrafft 2021/22.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar unwaith.

**Ymgynghoriad:**

Bydd ymgynghoriad yn cychwyn heddiw â'r cyhoedd a'r holl randdeiliaid ar gynigion y gyllideb ddrafft ar gyfer arbedion/cynhyrchu incwm.

Bydd yr ymgynghoriad yn dechrau'n syth ar ôl y cyfarfod heddiw ac yn para tan 12 Chwefror 2021 cyn i'r penderfyniadau terfynol gael eu gwneud ym mis Mawrth 2021.

7. **INDEMNIAD Y SWYDDOG CANLYNIADAU A'R SWYDDOG CANLYNIADAU GWEITHREDOL**

Ail-gadarnhaodd K Jones, Prif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot ei buddiant ar y pwynt hwn, a gadawodd y cyfarfod ar gyfer yr eitem hon yn unig.

**Penderfyniad:**

Bod indemniad priodol o dan Orchymyn Awdurdodau Lleol (Indemniadau ar gyfer Aelodau a Swyddogion) (Cymru) 2006 yn cael ei ddarparu i Mrs Karen Jones mewn perthynas â chyflawni'i dyletswyddau fel Swyddog Canlyniadau a/neu Swyddog Canlyniadau Gweithredol ar gyfer Etholiadau a Chyfeiriadau sy'n digwydd yn y Fwrdeistref Sirol.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Sicrhau bod yr indemniadau priodol ar waith ar gyfer swyddogion sy'n derbyn cyfrifoldeb personol am faterion o'r fath.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Rhoddir y penderfyniad ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

## 8. EITEMAU BRYS

Ni dderbyniwyd unrhyw Eitemau Brys.

## 9. MYNEDIAD I GYFARFODYDD

**PENDERFYNWYD:** Yn unol â Rheoliad 4(3) a (5) Offeryn Statudol 2001 Rhif 2290, gwaherddir y cyhoedd ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol a oedd yn debygol o gynnwys datgelu gwybodaeth eithriedig fel a ddiffinnir ym Mharagraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

## 10. CYFLWYNO GRANTIAU CYFLEUSTERAU I'R ANABL I GYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR (YN EITHRIEDIG DAN BARAGRAFF 14)

**Penderfyniadau:**

1. Bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i Bennaeth y Gwasanaethau i Oedolion i ddarparu Rhaglen Gymorth Grant Cyfleusterau i'r Anabl i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn unol â'r trefniadau a nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad a ddosbarthwyd.

2. Bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i Bennaeth y Gwasanaethau i Oedolion mewn ymgynghoriad â Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol i gytuno ar delerau cytundeb cydweithio rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer darparu Rhaglen Gymorth Grant Cyfleusterau i'r Anabl.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Galluogi'r cyngor i ymrwymo i gytundeb gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (CBSPBO) i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ar ran CBSPBO.

**<u>Rhoi Penderfyniadau ar Waith:</u>**

Rhoddir y penderfyniad ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

**CADEIRYDD**